

PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2026.

Mae agenda'r Pwyllgor ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Y Cynghorwyr G. Bruce, B. Dodd, C.P. Franks, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, R. Sivagnanam, S.T. Wiliam ac M.R. Wilkinson.

721 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

722 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr J.M. Norman (Is-gadeirydd) ac L. Burnett.

723 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2026 fel cofnod cywir.

724 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

725 POLISI CAIS I HEPGOR OEDRAN AR GYFER CERBYD HACNI (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Tîm Trwyddedu. Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y Siambr a rhoddodd gynrychioliadau ynghylch yr amgylchiadau o amgylch eu cais, a dywedodd eu bod eisoes wedi gwario swm sylweddol o arian ar y cerbyd.

Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod yr Ymgeisydd wedi cael cyngor gan staff y dylai eu cais i gofrestru fel Cerbyd Hacni fod yn syml, ond nad oedd oedran y cerbyd wedi'i wirio yn hyn o beth, ar y pwynt hwnnw. Gan fod y cerbyd ychydig dros y canllaw 6 blynedd, gofynnwyd i'r Pwyllgor benderfynu ar ganlyniad cais i hepgor y polisi oedran, cyn y gellid dechrau profi ymhellach ar y cerbyd.

PENDERFYNWYD – Y dylid hepgor canllawiau polisi oedran y cerbyd yn yr achos hwn, a chaniatáu i'r ymgeisydd fwrw ymlaen â'r broses ymgeisio, gan gynnwys profion diogelwch.

Rheswm dros y penderfyniad

Roedd y Pwyllgor yn fodlon y dylai'r cais am y cerbyd fwrw ymlaen yn yr achos hwn, gan gynnwys profion yn yr Alpau, lle byddai ei ddiogelwch a'i addasrwydd yn cael eu hasesu.